**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Ymchwiliad i Glastir

Hydref 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8639
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorAC@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Ymchwiliad i Glastir

Hydref 2012

**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: cynnal, datblygu a chynllunio ar gyfer amgylchedd ac adnoddau ynni naturiol Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd



**Mick Antoniw**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Keith Davies**
Llafur Cymru
Llanelli



**Russell George**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



**Vaughan Gething**
Llafur Cymru
De Caerdydd a Phenarth



**Llyr Huws Gruffydd**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Julie James**
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



**William Powell**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**David Rees**
Llafur Cymru
Aberafan



**Antoinette Sandbach**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Rebecca Evans**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys


**Argymhellion y Pwyllgor** .......... **5**

**Cyflwyniad** .......... **7**

**Cyfathrebu** .......... **9**

**Cymorth gan Swyddogion Prosiect** .......... **12**

**Gofynion cadw cofnodion** .......... **13**

**Dulliau o dalu a'r cyfraddau tâl** .......... **15**

Talu am waith cyfalaf .......... 15

Cyfraddau tâl .......... 15

Cynefinoedd presennol ac incwm a ildiwyd .......... 16

**Y berthynas rhwng yr 'Elfen Cymru Gyfan' (Sylfaenol) a'r 'Elfen wedi'i Thargedu' (Uwch)** .......... **17**

**Cynlluniau creu a rheoli coetiroedd** .......... **18**

**Opsiynau eraill yn y cynllun** .......... **19**

Pecynnau rhanbarthol .......... 19

Porfeydd uchel eu siwgr .......... 19

Defnyddio Nitrogen .......... 19

Opsiynau cynefin .......... 19

**Atodiad A - Cylch gorchwyl** .......... **21**

**Atodiad B – Llythyr at y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd** .......... **22**

**Atodiad C - Tystion** .......... **24**

**Atodiad Ch - Tystiolaeth ysgrifenedig** .......... **26**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Cyfeiriwch at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth atodol a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi cynllun cyfathrebu strategol cychwynnol ar gyfer Glastir erbyn mis Ionawr 2013. Yn ei chynllun cyfathrebu, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r hyn y bydd yn ei wneud i gyfathrebu â'r ffermwyr hynny sydd eisoes yn rhan o Glastir ac i sicrhau bod dulliau priodol yn cael eu defnyddio i gyfathrebu â darpar ymgeiswyr. Os bydd y gwaith cyfathrebu hwn yn cael ei wneud gan asiantaethau gwahanol, dylai'r cynllun nodi'n glir y rhai a fydd yn bennaf gyfrifol am y gwahanol agweddau ar y gwaith. (Tudalen 10)

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru baratoi adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor yn dangos hynt ei chynllun cyfathrebu strategol ar gyfer Glastir, ac yn ymwneud yn benodol â'r camau y bydd yn eu cymryd i roi gwybod i ffermwyr am ddulliau o dalu am waith cyfalaf a Glastir 'Uwch' (yr Elfen wedi'i Thargedu' gynt). Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Pwyllgor yn cael yr adroddiad cynnydd hwn cyn y caiff adroddiad blynyddol y Llywodraeth ar Glastir ei gyhoeddi yn 2013. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i weld a yw'r diffyg cymorth gan swyddogion ar y fferm wedi amharu ar y nifer sy'n gwneud cais am rai o opsiynau Glastir, a dylai gyhoeddi'r canlyniadau erbyn mis Ionawr 2013. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwybodaeth am y cynnydd a wneir o ran darparu cymorth uniongyrchol i ffermwyr, a hynny erbyn mis Ionawr 2013, gan nodi faint o'r cymorth hwn a gynigir ar y fferm. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ganlyniad yr adolygiad o ofynion cadw cofnodion Glastir, ac ar unrhyw newidiadau a gynigir o ganlyniad i'r adolygiad hwnnw, gan wneud hynny erbyn diwedd mis Tachwedd 2012. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 6.** Fel rhan o'i chynllun cyfathrebu, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y newidiadau yn nhaliadau cyfalaf Glastir yn cael eu hesbonio'n glir, a bod pob rhanddeiliad yn eu deall. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro ymhellach yr amserlen ar gyfer cynnal adolygiadau cyfnodol o'r cyfraddau tâl, a nodi'n glir y meini prawf y bydd yn eu defnyddio i benderfynu cynnal adolygiad ai peidio. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o adolygu cynllun cyffredinol taliadau Glastir, gan ystyried rheolau'r UE a Sefydliad Masnach y Byd yn ymwneud â'r cynllun, ond gan ystyried hefyd waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac asiantaethau cefn gwlad eraill yn y DU sydd ynghlwm wrth y maes. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector coedwigaeth i asesu effaith Glastir ar y sector hwnnw ac i benderfynu sut y caiff mesurau i gynorthwyo'r sector coedwigaeth fasnachol eu cynnwys yng ngwaith y corff Adnoddau Naturiol newydd. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid rhoi mesurau ar waith cyn pen blwyddyn ar ôl i'r un corff amgylcheddol newydd ddechrau ar ei waith. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymgynghori'n llawn â rhanddeiliaid am newid opsiynau Glastir pan fydd yn adolygu'r cynllun wedi i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin newydd gael ei gyflwyno. (Tudalen 20)

## Cyflwyniad

1. Ar 6 Mawrth 2012, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni ei fwriad i bwyso a mesur y cynllun amaeth-amgylcheddol, Glastir.[1] Yna, cytunodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar gylch gorchwyl[2] ar gyfer ymchwiliad byr i wrando ar farn rhanddeiliaid allweddol.

2. Ar 17 Mai, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr undebau amaethyddol; cynrychiolwyr ffermwyr organig; Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a Chyswllt Amgylchedd Cymru. Yna, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Dirprwy Weinidog,[3] yn tynnu sylw at nifer o bryderon a nododd y rhanddeiliaid am y cynllun ac yn awgrymu sut y gellid ei wella.

3. Ar 3 Gorffennaf, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog adroddiad ar yr archwiliad pwyso a mesur[4] a rhoddodd ddatganiad llafar i'r Cyfarfod Llawn[5] am y modd y byddai'n datblygu'r cynllun. Cyhoeddwyd rhai newidiadau i'r cynllun, gan gynnwys dileu'r ffenestr ymgeisio ac ailenwi elfennau'r cynllun. Mae'r 'Elfen Cymru Gyfan' yng nghynllun Glastir yn awr yn cael ei galw'n 'Glastir Sylfaenol', a 'Glastir Uwch' yw'r hen 'Elfen wedi'i Thargedu'.

4. Roedd datganiad y Dirprwy Weinidog yn ymdrin â rhai o'r pwyntiau a gododd y Pwyllgor, ac yna ymddangosodd gerbron pwyllgor craffu mewn sesiwn yn Sioe Frenhinol Cymru ar 25 Gorffennaf. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi prif gasgliadau'r Pwyllgor ynghylch roi Glastir ar waith yn y dyfodol, ac mae'n cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru, na weithredwyd arnynt eto, yn dilyn ymateb y Dirprwy Weinidog hyd yma:

5. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y Dirprwy Weinidog yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar Glastir, a fydd yn rhestru, “nid yn unig nifer y bobl a'r busnesau sy'n cymryd rhan yn y cynllun ond hefyd yr hyn y mae'r cynllun yn ei gyflawni a sut y mae'r trethdalwr yn elwa o'r buddsoddiad sylweddol ynddo. "Mae'r sesiynau a drefnir yn rheolaidd

---

[1] Llywodaeth Cymru, Alun Davies (Dirprwy Weinidog AFFE), Datganiad Llafar gan y Cabinet - am Glastir-Gweithredu’r Cynllun, 6 Mawrth 2012
[2] Atodiad A – cylch gorchwyl yr ymchwiliad
[3] Atodiad B – llythyr gan y Dirprwy Weinidog AFFEP, 21 Mehefin 2012.
[4] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Pwyso a Mesur Glastir, Mehefin 2012
[5] Llywodraeth Cymru, Alun Davies, Canlyniad gwaith Pwyso a Mesur Glastir, (Datganiad Llafar), 3 Gorffennaf 2012

i'r Pwyllgor graffu ar waith y Gweinidog hefyd yn gyfle i ystyried effaith y newidiadau a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf. Yn y cyfamser, mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth i'w ymchwiliad.

## Cyfathrebu

6. Nodwyd bod problemau cyfathrebu'n peri cryn bryder, o ran cyflwyno amcanion y cynllun a sut i fod yn rhan ohono, a hefyd o ran ymdrin â chamsyniadau ffermwyr. Tynnodd y rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod canfyddiad parhaus fod Glastir yn gynllun anodd i ymuno ag ef a bod nifer o ffermwyr yn dal heb sylweddoli bod y cynllun wedi newid yn dilyn adolygiad Rees Roberts.[6]

7. Roedd yr holl randdeiliaid yn pwysleisio pa mor bwysig oedd sicrhau bod y rhai sydd, ar hyn o bryd, yn yr Elfen Cymru Gyfan (Glastir Sylfaenol yn awr) yn cael profiad da a'u bod mewn sefyllfa i sôn wrth ffermwyr eraill am y buddion. Awgrymodd CCGC a Chymdeithas y Pridd y gallent weithredu fel mentoriaid i'r rhai sydd heb ymuno â'r cynllun eto, gan gyfeirio at fodel Agrisgop fel ffordd o annog grwpiau o ffermwyr i ddod at ei gilydd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth, a hynny dan arweiniad pobl hyfforddedig a chanddynt gefndir amaethyddol. Yn ei hadroddiad pwyso a mesur, gwrthododd Llywodraeth Cymru y syniad o gontractio gwasanaethau mentora gan ddeiliad cytundebau Glastir oherwydd prinder adnoddau, ond argymhellodd y gallai partneriaid ac undebau amaethyddol ddatblygu gwasanaethau mentora.

8. Clywodd y Pwyllgor fod dryswch wedi codi oherwydd y modd y cafodd y newidiadau i'r cynllun, yn dilyn Adolygiad Rees Roberts, eu cyflwyno i ffermwyr yn ystod y cylch cyntaf o geisiadau i ymuno â Glastir. Dywedodd Grŵp Organig Cymru fod ffermwyr yn gorfod dilyn dwy set o ganllawiau mewn dau lyfryn gwahanol, a bod pryder nad oedd asiantiaid a oedd yn cynghori ffermwyr ynghylch Glastir o reidrwydd yn ymwybodol o'r holl newidiadau. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi dweud yn glir ei fod yn bwriadu datblygu un cynllun Glastir Sylfaenol gydag un contract i bawb. Pwysleisiodd, fodd bynnag, na fyddai'r un o aelodau presennol Glastir yn cael eu gorfodi i newid eu contract presennol os oeddent yn hapus â'r contract hwnnw.

9. Roedd adroddiad pwyso a mesur Glastir yn cydnabod llawer o'r problemau cyfathrebu y cyfeiriodd y rhanddeiliaid atynt. Yn benodol, mae'r adroddiad yn dweud bod y camgymeriadau'n ymwneud â'r

---

[6] Llywodraeth Cymru, Elin Jones, y Gweinidog Materion Gwledig, Datganiad Ysgrifenedig – Ymateb i adroddiad Adolygiad Annibynnol o Glastir, 22 Mawrth 2011

newidiadau i'r cynllun - mewn dogfennau, mewn gwybodaeth ar-lein ac yn y cyngor a gafwyd gan staff - yn broblemau 'cwbl annerbyniol'.

10. Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog y byddai strategaeth gyfathrebu newydd yn cael ei datblygu ar gyfer Glastir, ac y byddai astudiaethau achos o gytundebau presennol Glastir yn creu rhan o'r strategaeth i hyrwyddo'r cynllun. Byddai rhagor o hyfforddiant i staff hefyd yn cael ei drefnu. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r penderfyniad i benodi rheolwr cyfathrebu amser llawn ar gyfer Glastir a fydd yn datblygu cynllun cyfathrebu strategol, ond mae'n dal yn pryderu nad oes terfyn amser clir ar gyfer datblygu'r cynllun hwnnw. Yn ogystal â hyn, dywedodd y swyddog sy'n arwain y gwaith yn Llywodraeth Cymru y bydd ymdrechion y Llywodraeth i wella'i dulliau cyfathrebu'n bennaf ar y ffermwyr hynny nad ydynt wedi ymwneud â Glastir erioed. Er bod y Pwyllgor yn deall y rhesymwaith hwn, mae'n awyddus i sicrhau y bydd hefyd yn defnyddio dulliau cyfathrebu o'r safon uchaf i gysylltu â'r ffermwyr hynny sydd eisoes yn rhan o'r cynllun. Mae hyn yn bryder penodol o gofio penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chefnogi ymweliadau gofal a chynnal. Clywodd y Pwyllgor y caiff yr adnoddau amrywiol presennol eu defnyddio i gyfathrebu â ffermwyr sydd eisoes yn rhan o'r cynllun.

11. Roedd y Pwyllgor yn pryderu am naws yr ohebiaeth ysgrifenedig a anfonwyd at ffermwyr, a oedd weithiau'n amhriodol ac yn ymwthgar ei naws. Ymddiheurodd y Dirprwy Weinidog am unrhyw enghreifftiau o'r fath, a nododd fod yr holl lythyrau safonol yn cael eu hadolygu fel rhan o argymhellion adroddiad 'Hwyluso'r Drefn',[7] ac y dylai Aelodau'r Cynulliad roi gwybod iddo'n uniongyrchol am unrhyw brofiadau tebyg ac y byddai'n delio â nhw fel mater rheoli neu bolisi.

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi cynllun cyfathrebu strategol cychwynnol ar gyfer Glastir erbyn mis Ionawr 2013. Yn ei chynllun cyfathrebu, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r hyn y bydd yn ei wneud i gyfathrebu â'r ffermwyr hynny sydd eisoes yn rhan o Glastir ac i sicrhau bod dulliau priodol yn cael eu defnyddio i gyfathrebu â darpar ymgeiswyr. Os bydd y gwaith cyfathrebu hwn yn cael ei wneud gan asiantaethau gwahanol, dylai'r cynllun nodi'n glir y rhai a fydd yn bennaf gyfrifol am y gwahanol agweddau ar y gwaith.**

[7] Hwyluso'r Drefn, adroddiad annibynnol gan Gareth Williams, 31 Ionawr 2012

**Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru baratoi adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor yn dangos hynt ei chynllun cyfathrebu strategol ar gyfer Glastir, ac yn ymwneud yn benodol â'r camau y bydd yn eu cymryd i roi gwybod i ffermwyr am ddulliau o dalu am waith cyfalaf a Glastir 'Uwch' (yr Elfen wedi'i Thargedu' gynt). Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Pwyllgor yn cael yr adroddiad cynnydd hwn cyn y caiff adroddiad blynyddol y Llywodraeth ar Glastir ei gyhoeddi yn 2013.**

## Cymorth gan Swyddogion Prosiect

12. Cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd swyddogion prosiect i gynorthwyo â'r Elfen Cymru Gyfan ac awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y gellid annog rhagor o ffermwyr i gymryd rhan yn y cynllun drwy ddefnyddio rhagor o swyddogion prosiect. Soniwyd wrth y Dirprwy Weinidog hefyd am bwysigrwydd rhoi cymorth 'gofal a chynnal' i'r rhai a oedd â chontract.

13. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn cydnabod gwerth y cymorth roedd y swyddogion prosiect ei gynnig a bod 10 o swyddogion ychwanegol yn cael eu penodi i ymuno â'r 25 sydd eisoes yn cynorthwyo â Glastir Uwch ond, yn syml iawn, nid oedd yr adnoddau ar gael i ehangu'r cymorth y tu hwnt i hynny. Ym marn Llywodraeth Cymru, byddai'n well ganddi i ffermwyr ddefnyddio'r gwasanaethau presennol fel Cyswllt Ffermio na defnyddio'r Cynllun Datblygu Gwledig i dalu am swyddogion sy'n ymwneud yn benodol â Glastir.

14. Roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod ei bod yn bwysig sicrhau bod yr amrywiol adnoddau sydd ar gael i roi cymorth uniongyrchol i ffermwyr - sef Cyswllt Ffermio a staff rheng flaen yn swyddfeydd rhanbarthol Llywodraeth Cymru - yn cydweithio'n agos i drosglwyddo negeseuon pwysig i ffermwyr.

15. Yn ystod ei ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor fod rhanddeiliaid yn poeni bod rhai o'r opsiynau sydd ar gael i ffermwyr o dan gynllun Glastir Sylfaenol, fel creu pyllau, yn anymarferol erbyn hyn gan nad oes neb ar gael i ddod i'r ffermydd i roi cyngor ynghylch lleoli'r opsiynau hyn.

**Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i weld a yw'r diffyg cymorth gan swyddogion ar y fferm wedi amharu ar y nifer sy'n gwneud cais am rai o opsiynau Glastir, a dylai gyhoeddi'r canlyniadau erbyn mis Ionawr 2013.**

**Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwybodaeth am y cynnydd a wneir o ran darparu cymorth uniongyrchol i ffermwyr, a hynny erbyn mis Ionawr 2013, gan nodi faint o'r cymorth hwn a gynigir ar y fferm.**

## Gofynion cadw cofnodion

16. Holodd y rhanddeiliaid am yr angen i gadw rhai cofnodion, yn enwedig yr angen i gadw dyddiadur stoc a chofnodion caeau ar gyfer lleiniau o dir nad yw gofynion Glastir yn gymwys iddynt neu nad ydynt o unrhyw ddiddordeb o ran cynefin. Roedd pryderon difrifol am yr holl fiwrocratiaeth sydd ynghlwm wrth ofynion y cynllun. Gallai hyn fod yn rhwystr sy'n atal ffermwyr rhag dewis ymuno â Glastir. Clywodd y Pwyllgor na ddylai'r cynllun fod mor gymhleth nes bod pobl yn dewis peidio ag ymuno ag ef, a bod angen ailedrych ar bob agwedd ar y gofynion cadw cofnodion, gan sicrhau bod y gofynion hynny'n cyd-fynd â'r cynllun, 'Hwyluso'r Drefn'.

17. Cafodd y pryderon hyn eu cydnabod yng nghasgliadau'r adroddiad pwyso a mesur. Er iddo nodi bod y cynllun yn cynnwys elfen o dâl i ffermwyr am ddarparu'r wybodaeth, roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod ei bod yn bwysig ailedrych ar y gofynion cadw cofnodion, a dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'r adolygiad hwn yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2012.

18. Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd fod angen i ffermwyr gadw cofnodion fel rhan o broses archwilio Llywodraeth Cymru, i sicrhau y gall ddangos bod y cynllun yn cael ei roi ar waith, a bod taliadau'n cael eu gwneud, yn unol â'r rheolau. Aeth rhagddo i sôn am risg:

> "The Welsh Government largely takes the risk on behalf of the farming community because, if there is an issue with the delivery of a scheme, we have the disallowance and we are fined as a Government for that. It might well be that people will want to change the balance of that and that the farmers unions will say, 'We'll take on more of the risk', which means that people within the community would take more of the risk. We can have the conversation; I can see people looking shocked. I am happy to have the conversation; I am not saying that I want to lead that conversation or that I want it to arrive at a particular point. I am certainly not saying that the Government is changing its approach to this. However it might well be that if people wish, we can have that debate about where risk lies in this audit process."[8]

[8] Trawsgrifiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2012 [154].

**Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ganlyniad yr adolygiad o ofynion cadw cofnodion Glastir, ac ar unrhyw newidiadau a gynigir o ganlyniad i'r adolygiad hwnnw, gan wneud hynny erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.**

## Dulliau o dalu a'r cyfraddau tâl

### Talu am waith cyfalaf

19. Mynegwyd pryder am y newidiadau yn y dulliau o dalu am waith cyfalaf, a'r angen i esbonio'r dulliau newydd hyn yn well i ffermwyr. O dan gynllun Tir Gofal, byddai ffermwyr yn cael eu talu ar ôl cwblhau'r gwaith cyfalaf, ond o dan gynllun Glastir, caiff y tâl ei gynnwys yn y taliad blynyddol am fod yn rhan o'r cynllun. Mae'r trefniadau newydd hyn a'r modd y cafodd ffermwyr wybod amdanynt wedi creu ansicrwydd. Awgrymodd CCGC y gallai'r cynllun gael ei adolygu yn y dyfodol yn achos opsiynau sy'n cynnwys gwaith cyfalaf, fel bod y taliadau a gaiff ffermwyr ar gyfer pob hectar yn ystod y blynyddoedd cyntaf ar gyfradd uwch na'r taliadau yn ystod y blynyddoedd olaf, i ganiatáu iddynt adennill costau cyfalaf yn gynt.

20. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod y syniad o newid y modd y telir am waith cyfalaf, er bod ymrwymiad i'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf ychwanegu 3 mis at y rhaglen gwaith cyfalaf, hy dros ddau aeaf, i'w gwneud yn haws i ffermwyr ariannu'r gwaith.

**Argymhelliad 6: Fel rhan o'i chynllun cyfathrebu, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y newidiadau yn nhaliadau cyfalaf Glastir yn cael eu hesbonio'n glir, a bod pob rhanddeiliad yn eu deall.**

### Cyfraddau tâl

21. Dywedodd y rhanddeiliaid hefyd fod angen diweddaru cyfraddau tâl Glastir i adlewyrchu cyflwr y farchnad, a dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod rhai cyfraddau tâl yn cael eu cyfrifo ar sail gwybodaeth a oedd yn 3-4 oed. Dywedodd nad oedd y cyfraddau incwm a ildiwyd yn apelio, o bosibl, at ffermwyr, ac y byddent yn colli diddordeb yn y cynllun. Roedd y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA) hefyd yn pryderu nad oedd yr elfen gwaith cyfalaf yn y taliadau yn codi'n unol â chwyddiant ac nad oeddent, felly, yn adlewyrchu'r costau cynyddol roedd ffermwyr yn eu hwynebu. Yn ei hymateb i'r broses pwyso a mesur dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n parhau i fonitro'r cyfraddau, ond byddai'r gost weinyddol o'i hadolygu bob blwyddyn yn uchel iawn ac, o bosibl, yn niweidiol iawn i ffermwyr.

**Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru egluro ymhellach yr amserlen ar gyfer cynnal adolygiadau cyfnodol o'r cyfraddau tâl, a nodi'n glir y meini prawf y bydd yn eu defnyddio i benderfynu cynnal adolygiad ai peidio.**

## Cynefinoedd presennol ac incwm a ildiwyd

22. O dan reolau cynlluniau amaeth-amgylcheddol, caiff taliadau eu gwneud i ffermwyr ar sail incwm a ildiwyd a chost y gwaith yn unig. Er eu bod yn cydnabod hyn, ym marn y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, a Chyswllt Amgylchedd Cymru, gallai cyfraddau tâl Glastir fod yn fwy creadigol. Gellid rhoi mwy o bwyslais ar gost y gwaith i'r ffermwr, a soniodd CCGC am enghreifftiau o waith a wnaed gydag asiantaethau yn rhannau eraill o'r DU yn dangos sut y gellid gwneud hynny, er ei fod yn cydnabod y byddai goblygiadau ynghlwm wrth godi cyfraddau tâl wrth weithredu o fewn cyllideb benodol.

23. Roedd y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad ac NFU Cymru yn poeni bod y taliadau presennol yn rhoi pwyslais ar greu cynefinoedd newydd, yn hytrach na chynnal cynefinoedd presennol a grëwyd o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol. Teimlai'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad y gallai'r cynllun, oherwydd hyn, fod yn llai atyniadol i ffermwyr sy'n amharod i leihau gwerth cyfalaf tir drwy droi tir cynhyrchiol yn dir cynefin os bydd yn anodd ei droi'n ôl yn dir cynhyrchiol eto pan ddaw'r cynllun i ben. Yn ôl CCGC, er bod llawer o gynefinoedd na ellir eu cynnwys ar hyn o bryd yng nghynllun Glastir o dan y cynllun gwreiddiol, roedd y newidiadau a wnaed ers hynny yn golygu nad oedd hyn, o reidrwydd, yn wir yn achos pob cynefin. Dywedodd CCGC wrth y Pwyllgor fod canfyddiad ymhlith ffermwyr, o bosibl, fod y taliadau a gawsant am dir cynefin o dan gynllun Tir Gofal yn uwch na'r taliadau y byddent yn ei gael o dan Glastir, a hynny oherwydd y dryswch ynglŷn ag ariannu gwaith cyfalaf o dan Glastir.

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o adolygu cynllun cyffredinol taliadau Glastir, gan ystyried rheolau'r UE a Sefydliad Masnach y Byd yn ymwneud â'r cynllun, ond gan ystyried hefyd waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac asiantaethau cefn gwlad eraill yn y DU sydd ynghlwm wrth y maes.**

## Y berthynas rhwng yr 'Elfen Cymru Gyfan' (Sylfaenol) a'r 'Elfen wedi'i Thargedu' (Uwch)

24. Mynegwyd pryder am y diffyg gwybodaeth a oedd ar gael am Glastir Uwch, a'r diffyg cysylltiad rhwng y broses o ymgeisio am yr elfen honno o'r cynllun a'r broses o ymgeisio am Glastir Sylfaenol. Cyfeiriodd Cymdeithas y Pridd a CCGC am ddiffyg tryloywder ynghylch y lefel Uwch. Bu'n rhaid i ffermwyr ymuno â'r cynllun Sylfaenol heb wybod a fyddent hefyd yn gallu cymryd rhan yn y cynllun Uwch. Dadleuwyd y byddai'r cynllun yn fwy atyniadol i ffermwyr pe baent yn cael gwneud cais am y ddwy elfen yr un pryd. Awgrymodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad y gallai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dulliau rhagweithiol o annog ffermwyr i ymuno â Glastir drwy gysylltu â phob un ohonynt o fewn yr ardaloedd perthnasol a dargedwyd a chynnig contractau iddynt ar gyfer y ddwy elfen yr un pryd.

25. Pwysleisiodd CCGC a Chyswllt Amgylchedd Cymru ei bod yn bwysig sicrhau bod ffermwyr sydd â chontractau Tir Gofal, erbyn diwedd y cyfnod pontio yn 2013, yn gallu ymuno â Glastir Uwch.

26. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i symleiddio'r broses o ymuno â Glastir Uwch a, lle bynnag y bo modd, i fwrw ymlaen â cheisiadau i ymuno â Glastir Sylfaenol a Glastir Uwch yr un pryd. Mae'r Pwyllgor yn arbennig o falch y caiff hyn ei dreialu gyda ffermwyr Tir Gofal i ddechrau.

Er bod y camau hyn i'w croesawu, nid ydynt yn ymdrin yn llawn â'r broblem ehangach o ddarparu digon o wybodaeth i ffermwyr am Glastir Uwch. Mae'n bwysig bod ffermwyr yn cael y wybodaeth hon i ganiatáu iddynt wneud penderfyniadau busnes deallus am ymuno â'r Cynllun. Yn ei adroddiad pwyso a mesur, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r cynllun cyfathrebu newydd yn mynd i'r afael â hyn. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad hwn a bydd yn craffu'n ofalus ar hynt y rhan o'r hon cynllun cyfathrebu.

## Cynlluniau creu a rheoli coetiroedd

27. Roedd cynrychiolwyr y sector coedwigaeth fasnachol yn amau na chafodd eu barn ei hystyried yn ddigonol pan gynlluniwyd y Cynlluniau Creu a Rheoli Coetiroedd a'u rhoi ar waith. Roedd pryderon hefyd ynghylch pa mor gyson a chlir oedd y cyngor a roddwyd i'r rhai a oedd yn gwneud cais i ymuno â'r cynlluniau hyn yn ystod y ffenestr ymgeisio gyntaf, yn enwedig o ran cywirdeb y mapiau plannu a ddefnyddiwyd. Dywedodd y rhanddeiliaid fod y mapiau plannu, sy'n amlinellu'r ardaloedd lle gellid plannu coed, wedi'u creu drwy ddefnyddio hen data annibynadwy. Mynegodd y Pwyllgor bryder am hyn wrth y Dirprwy Weinidog ar 25 Gorffennaf.

28. Roedd gan y Dirprwy Weinidog gydymdeimlad mawr â sylwadau'r sector coedwigaeth am yr angen i roi cymorth i goetiroedd masnachol ac roedd wedi ceisio sicrhau bod elfennau coetir Glastir mor hyblyg â phosibl. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn bwysig bod yn glir mai prif ddiben Glastir, fel cynllun amaeth-amgylcheddol a ariennir drwy gyfrwng colofn 2, oedd hybu mesurau amgylcheddol yn hytrach na rhoi cymorth cyhoeddus i'r sector masnachol. Mae'r Pwyllgor yn derbyn casgliad y Dirprwy Weinidog na ddylid defnyddio Glastir i ddarparu cymorth i goedwigaeth fasnachol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n credu bod pryderon y sector hwnnw'n adlewyrchu problem ehangach yn ymwneud â'r polisi amgylcheddol a bod angen i Lywodraeth Cymru benderfynu'n fuan sut y gellir cynorthwyo'r sector masnachol yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd nesaf.

29. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru yng nghanlyniadau proses pwyso a mesur Glastir, i ailedrych ar rai agweddau ar y mapiau plannu.

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector coedwigaeth i asesu effaith Glastir ar y sector hwnnw ac i benderfynu sut y caiff mesurau i gynorthwyo'r sector coedwigaeth fasnachol eu cynnwys yng ngwaith y corff Adnoddau Naturiol newydd. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid rhoi mesurau ar waith cyn pen blwyddyn ar ôl i'r un corff amgylcheddol newydd ddechrau ar ei waith.**

## Opsiynau eraill yn y cynllun

30. Clywodd y Pwyllgor bryderon penodol eraill am opsiynau ac elfennau unigol yng nghynllun Glastir.

**Pecynnau rhanbarthol**

31. Dywedodd NFU Cymru fod pecynnau rhanbarthol yn creu cymhlethdod ychwanegol yn y cynllun, ac er bod CCGC a Chyswllt Amgylchedd Cymru o blaid yr egwyddor o greu pecynnau rhanbarthol, roeddent yn cytuno eu bod yn gymhleth a bod angen eu hadolygu ymhellach.

**Porfeydd uchel eu siwgr**

32. Roedd NFU Cymru a Chymdeithas y Pridd yn galw am gynnwys yr opsiwn hwn yn Glastir Sylfaenol. Dywedodd Cymdeithas y Pridd y byddai'n helpu ffermwyr i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru yn amau a ddylid defnyddio arian cyhoeddus i ariannu hyn o gofio'r manteision economaidd roedd yr opsiwn yn ei gynnig i ffermwyr. Credai'r Cyngor Cefn Gwlad nad oedd yr opsiwn hwn wedi'i gynnwys oherwydd y byddai'n anodd ei gyfiawnhau ar sail incwm a ildiwyd gan y byddai'r manteision economaidd i'r ffermwyr yn fwy na'u costau.

**Defnyddio Nitrogen**

33. Roedd CCGC a Chyswllt Amgylchedd Cymru yn pryderu am Opsiynau 15B a 15D oherwydd pryderon y byddai lefelau uchel o nitrogen yn cael eu hychwanegu at laswelltir cyfoethog ei rywogaethau ac y gallai hynny arwain at newidiadau botanegol sylweddol. Maent yn argymell newid yr opsiwn hwn i fod yn gymwys i dir sydd wedi'i wella'n unig. Tynnodd CCGC sylw at y ffaith bod ychwanegu 50kg/ha o wrtaith anorganig a 50kg/ha o wrtaith organig bob blwyddyn yn uwch na'r cyfartaledd a ganiateir yn y DU, sef 89kg/ha o wrtaith bob blwyddyn. Roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru hefyd yn pryderu am hyn ac nid oedd yn credu y dylid defnyddio arian cyhoeddus i ariannu opsiynau nad oedd iddynt fawr o fudd amgylcheddol.

**Opsiynau cynefin**

34. Roedd CCGC o blaid caniatáu i ffermwyr tir mynydd ymuno â Glastir Sylfaenol drwy ddewis un opsiwn cynefin os oedd ganddynt dir addas i wneud hynny. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ffermwyr ddewis o

leiaf tri opsiwn gwahanol, a all fod yn anodd i ffermwyr tir mynydd sydd â dim ond ychydig o dir sydd wedi'i wella. Roedd y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad hefyd o blaid y cynnig hwn a byddai Cyswllt Amgylchedd Cymru hefyd o'i blaid pe bai mesurau ar waith i sicrhau ei fod yn gymwys i'r cynefinoedd pwysicaf yn unig.

35. Mae'r adroddiad pwyso a mesur yn nodi na fydd opsiynau'r cynllun presennol yn newid tan 2015 pan fydd y Dirprwy Weinidog yn gallu sicrhau bod y cynllun yn cydymffurfio'n llawn â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Ar hyn o bryd, mae ymrwymiad i ystyried argymell dileu neu gyfyngu ar rai o'r opsiynau a diwygio eraill. Os caiff y cynllun ei newid yn 2015, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl gweld cynllun cyfathrebu cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod pob ffermwr, y rhai sydd eisoes yn rhan o'r cynllun a'r rhai sydd heb ymuno eto, yn deall yr holl newidiadau a wneir a'r goblygiadau i'w fferm.

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymgynghori'n llawn â rhanddeiliaid am newid opsiynau Glastir pan fydd yn adolygu'r cynllun wedi i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin newydd gael ei gyflwyno.**

## Atodiad A - Cylch gorchwyl

Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi penderfynu cynnal ymchwiliad i gynllun amaeth-amgylcheddol Llywodraeth Cymru, Glastir.

Diben yr ymchwiliad hwn yw:

- asesu'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth roi'r cynllun ar waith;
- casglu safbwyntiau rhanddeiliaid am y cynllun a sut y gellid ei wella;
- gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru am y modd y caiff y cynllun ei roi ar waith.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried:

- pa gynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru i roi argymhellion adolygiad annibynnol Rees Roberts o Glastir ar waith ac a fu'r rhain yn effeithiol?
- pa gynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru i roi argymhellion adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' ar waith, yng nghyswllt Glastir?
- a oes unrhyw ffactorau sy'n rhwystro rhai sy'n rhan o'r diwydiant rhag ymuno â'r cynllun a sut y gellir mynd i'r afael â hynny?
- beth yw barn rhanddeiliaid am wahanol elfennau'r cynllun?
- trefniadau ariannu'r cynllun ac, yn benodol:
    - a oes digon o hyblygrwydd yn y modd yr ariennir gwahanol elfennau'r cynllun?
    - a yw'r gwaith costio'n ymwneud â'r gwahanol opsiynau sydd ar gael o dan yr Elfen Cymru Gyfan a'r Elfen wedi'i Thargedu'n adlewyrchu cyflwr y farchnad?
    - yr arian sydd ar gael i ffermwyr mewn ardaloedd llai ffafriol sy'n ymuno â'r cynllun.

## Atodiad B – Llythyr at y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd

Alun Davies AC
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd:
Llywodraeth Cymru

21 Mehefin 2012.

Annwyl Alun

**Glastir**

Yn ei gyfarfod heddiw, ystyriodd y Pwyllgor y prif faterion sy'n codi o'i ymchwiliad i Glastir. Cytunwyd y byddai'n fuddiol dwyn y materion hynny i'ch sylw, cyn i'r Aelodau gael cyfle i'ch holi ymhellach yn Sioe Frenhinol Cymru ar 25 Gorffennaf.

Yn eu tystiolaeth, mae'r rhanddeiliaid  wedi tynnu sylw at nifer o feysydd sy'n peri pryder iddynt, ond maent hefyd wedi awgrymu sut y gellid gwella'r cynllun. Mae'r prif faterion a godwyd yn ymwneud â:


- Rhoi gwybod i ffermwyr am amcanion y cynllun ac awgrymu sut y gellid gwella'u canfyddiad o'r cynllun - roedd y rhanddeiliaid yn pwysleisio bod canfyddiad parhaus ymhlith ffermwyr ei bod yn anodd ymuno â'r cynllun a bod llawer ohonynt yn dal heb sylweddoli bod y cynllun wedi newid yn dilyn adolygiad Rees Roberts. Roedd yr holl randdeiliaid yn pwysleisio ei bod yn bwysig sicrhau bod y rhai sydd yn yr Elfen Cymru Gyfan ar hyn o bryd yn cael profiad da;
- Cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd swyddogion prosiect i gynorthwyo â'r Elfen Cymru Gyfan ac awgrymodd nifer o ymatebwyr y gellid annog rhagor i gymryd rhan yn y cynllun drwy ddefnyddio rhagor o swyddogion prosiect;
- Roedd pryder ynghylch gofynion cadw cofnodion a gwybodaeth yn yr Elfen Cymru Gyfan ac awgrymwyd sut y gellid symleiddio hyn - holwyd am yr angen i gadw rhai o'r cofnodion a mynegwyd pryder difrifol am yr holl waith papur roedd y gofynion hyn yn ei greu;

- Roedd pryder am y dulliau o dalu am waith cyfalaf a'r angen i esbonio'r dulliau hyn yn well i ffermwyr - nodwyd bod y newidiadau hyn a'r modd y cawsant eu hesbonio i ffermwyr yn creu ansicrwydd;
- Yr Elfen wedi'i Thargedu a'i pherthynas â'r Elfen Cymru Gyfan - mynegwyd pryder am y diffyg gwybodaeth a oedd ar gael a'r diffyg cysylltiad rhwng prosesau ymgeisio'r ddwy elfen;
- Roedd pryder am roi'r Cynlluniau Creu a Rheoli Coetiroedd ar waith - gan gynnwys a oeddent yn ystyried barn rhanddeiliaid y sector coedwigaeth fasnachol yn ddigonol.

Yn ogystal â hyn, roedd pryderon penodol yn ymwneud ag opsiynau ac elfennau unigol yn y cynllun, fel y pecynnau rhanbarthol, porfeydd uchel eu siwgr a defnyddio nitrogen mewn cynefinoedd lled naturiol.

Mae'r trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor a'r papurau a ystyriwyd ar 17 Mai yn gosod allan y materion hyn yn fanylach, ac mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at eu harchwilio ymhellach gyda chi yn ein cyfarfod yn Sioe Frenhinol Cymru.

Yn gywir



**Dafydd Elis-Thomas**
**Cadeirydd / Chair**

## Atodiad C - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r cyfarfodydd yn: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1308

| | |
|---|---|
| **17 MAI 2012** | |
| **Sesiwn 1** | |
| Bernard Llewellyn | NFU Cymru |
| Dafydd Jarrett | NFU Cymru |
| Emyr Jones | Undeb Amaethwyr Cymru |
| Rhian Nowell-Phillips | Undeb Amaethwyr Cymru |
| Sue Evans | Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad |
| Ant Griffith | Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad |
| **Sesiwn 2** | |
| Brian Pawson | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Ieuan Joyce | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| **Sesiwn 3** | |
| Arfon Williams | Cyswllt Amgylchedd Cymru (RSPBC Cymru) |
| **Sesiwn 4** | |
| Emma Hockridge | Cymdeithas y Pridd |
| Keri Davies | Grŵp Organig Cymru |

| **25 GORFFENNAF 2012** | |
|---|---|
| Alun Davies AC | Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd |
| Gary Haggaty | Llywodraeth Cymru |

# Atodiad Ch - Tystiolaeth ysgrifenedig

Cafwyd y dystiolaeth ysgrifenedig a ganlyn. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=3511

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| NFU Cymru | E&S(4)-15-12: papur 1 |
| Undeb Amaethwyr Cymru | E&S(4)-15-12: papur 2 |
| Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad | E&S(4)-15-12: papur 3 |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | E&S(4)-15-12: papur 4 |
| Cyswllt Amgylchedd Cymru | E&S(4)-15-12: papur 5 |
| Cymdeithas y Pridd | E&S(4)-15-12: papur 6 |
| Llywodraeth Cymru | E&S(4)-22-12: papur 2 |
| Partneriaeth Busnes Coedwigo Cymru a Confor | Tystiolaeth ychwanegol 1 |
| Llais y Goedwig – llais coetiroedd cymunedol Cymru | Tystiolaeth ychwanegol 2 |
| Grŵp Organig Cymru | Tystiolaeth ychwanegol 3 |
| NFU Cymru | Tystiolaeth ychwanegol 4 |